# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
# Answers to Questions not reached in Plenary

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.
[R] signifies that the Member has declared an interest.
[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog
## Questions to the First Minister

### Rhestri Aros yn Sir Gaerfyrddin
### Waiting Lists in Carmarthenshire

**C12 Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar restri aros yn sir Gaerfyrddin? (OAQ40027) [W]

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Ym mis Gorffennaf 2001, newidwyd y pwyslais o restrau aros i amseroedd aros. Mae buddsoddiad sylweddol wedi'i wneud i leihau amseroedd aros, ac i foderneiddio'r modd y maent yn cael eu rheoli, a'r gwasanaethau a ddarperir. Mae gwelliannau i'w gweld ym meysydd blaenoriaeth llawdriniaeth y galon ac orthopedeg yn sir Gaerfyrddin.

**Q12 Rhodri Glyn Thomas:** Will the First Minister make a statement on waiting lists in Carmarthenshire? (OAQ40027) [W]

**The First Minister (Rhodri Morgan):** You will know that, in July 2001, we changed the emphasis from waiting lists to waiting times. Significant investment has been made in reducing waiting times and modernising the way they are managed and services delivered, with improvements being made in the priority areas of cardiac surgery and orthopaedics in Carmarthenshire.

### Ariannu'r Strategaeth Camddefnyddio Cyffuriau
### Funding the Drug Misuse Strategy

**Q13 Janet Ryder:** Will the First Minister make a statement on the funding of drug misuse strategy? (OAQ40021)

**The First Minister:** The Assembly has increased substantially the funding for the substance misuse action fund from £3.3 million per annum in 2002-03 to £18.4 million in 2007-08—an increase of over 550 per cent. There have also been significant increases in the provision given to local health boards as part of the NHS settlement.

**C13 Janet Ryder:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ynghylch ariannu'r strategaeth ynghylch camddefnyddio cyffuriau? (OAQ40021)

**Y Prif Weinidog:** Mae'r Cynulliad wedi cynyddu'n sylweddol y cyllid ar gyfer y gronfa i ymdrin â chamddefnyddio cyffuriau o £3.3 miliwn y flwyddyn yn 2002-03 i £18.4 miliwn yn 2007-08—cynnydd o dros 550 y cant. Bu cynnydd sylweddol hefyd yn y ddarpariaeth a roddir i fyrddau iechyd lleol fel rhan o setliad y GIG.

*Tynnwyd cwestiwn 14 (OAQ40003) yn ôl.*
*Question 14 (OAQ40003) withdrawn.*

### Dysgu Gydol Oes
### Life Long Learning

**Q15 William Graham:** Will the First Minister outline his administration's policies to promote life long learning? (OAQ40006)

**C15 William Graham:** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu polisïau ei Weinyddiaeth ar gyfer hyrwyddo dysgu gydol oes? (OAQ40006)

**The First Minister:** We continue to make good progress in promoting lifelong learning against the targets set out in ‘A Learning Country’. We are supporting a wide range of initiatives, such as the RISE learning network in the former county of Gwent, to promote access to learning for all ages and groups in Wales.

**Y Prif Weinidog:** Yr ydym yn parhau i wneud cynnydd da ar hyrwyddo dysgu gydol oes yn unol â’r targedau a geir yn ‘Y Wlad sy’n Dysgu’. Yr ydym yn cefnogi amrediad eang o fentrau, fel rhwydwaith dysgu RISE yn yr hyn a arferai fod yn sir Gwent, i hyrwyddo mynediad at ddysgu i bob oed a phob grŵp yng Nghymru.